Polisi Masnachu ar y Stryd

1.0 Cyflwyniad

Masnachu ar y stryd yw gwerthu neu ddangos neu gynnig unrhyw eitem (gan gynnwys rhywbeth byw) i'w werthu ar stryd. Mae stryd yn cynnwys ffordd, troedffordd, traeth neu ardal arall y mae gan y cyhoedd fynediad di-dâl iddi, gan gynnwys tir preifat.

Caiff masnachu ar y stryd ei rheoli o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, sy'n ddarn o ddeddfwriaeth sydd wedi'i fabwysiadu.

Mabwysiadwyd y darpariaethau masnachu ar y stryd gan CBS Castell-nedd Port Talbot, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel yr "Awdurdod Trwyddedu", ar 1 Gorffennaf 2001, gan ddynodi pob stryd yn "stryd caniatâd". I bob pwrpas, mae hyn yn golygu os ydych am fasnachu ar y stryd yng Nghastell-nedd Port Talbot, bydd angen Caniatâd Masnachu ar y Stryd arnoch gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Mae'r polisi hwn yn nodi gofynion a safonau cyffredinol y mae'n rhaid eu bodloni. Wrth arfer ei ddisgresiwn wrth gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio, bydd y cyngor yn rhoi sylw i'r ddogfen bolisi hon. Fodd bynnag, ystyrir pob cais neu gam gorfodi yn ôl ei deilyngdod.

Wrth ddatblygu'r polisi hwn, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ymgynghori â phartïon â diddordeb, masnachwyr presennol a'r cyhoedd ac mae'n ystyried:

- Deddfwriaeth gyfredol
- Cynllun Gwella Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot
- Polisïau presennol CBS Castell-nedd Port Talbot

2.0 **Lleoliadau masnachu ar y stryd**

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi dynodi dwy ardal yn y fwrdeistref sirol y cyfeirir atynt fel Parth 1 a Pharth 2.

Mae Parth 1 yn cynnwys canol trefi Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe a glan môr Aberafan. Mae Parth 2 yn cwmpasu pobman arall yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys tir preifat.

Atodir cynllun sy'n dangos hyd a lled ardaloedd Parth 1 yn Atodiad 1.

2.1 Parth 1

Bydd masnachu ym Mharth 1 yn gyffredinol yn gyfyngedig i fasnachu dros dro sy'n rhan o ddigwyddiad penodol. Gall hyn gynnwys gwyliau stryd, marchnadoedd a ffeiriau.

Fel arfer, bydd ceisiadau am leoliad masnachu parhaol ym Mharth 1 yn cael eu gwrthod. Serch hynny bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried yr holl geisiadau yn ôl eu teilyngdod ac efallai bydd yn darparu consesiynau lle gall yr ymgeisydd ddangos bod unrhyw gynnig yn cael effaith gadarnhaol.

2.2 Parth 2

Bydd masnachu ym Mharth 2 fel arfer yn cael ei ganiatáu lle gall yr ymgeisydd ddangos na fydd rhoi'r caniatâd yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr ardal amgylchynol.

Dylai ymgeiswyr ystyried eu lleoliad masnachu o ddewis yn ofalus, gan ystyried yn benodol yr effaith y gallant gael ar y briffordd, ar ddiogelwch y cyhoedd ac o ran unrhyw niwsans cyhoeddus y gellir ei achosi.

2.3 Tir Preifat

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr sy'n dymuno masnachu o dir preifat gael caniatâd masnachu ar y stryd, os caniateir mynediad di-dâl i

aelodau'r cyhoedd. Mae'n rhaid i ymgeiswyr gael caniatâd ysgrifenedig gan berchennog y tir cyn cyflwyno cais.

3.0 **Dulliau masnachu ar y stryd**

Efallai bydd ymgeiswyr am gyflwyno dulliau amrywiol y maent yn bwriadu eu defnyddio i fasnachu; gallai'r rhain gynnwys masnachu o ôl-gerbyd, cerbyd modur, beic neu stondin (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn). Pa ddull bynnag y mae ymgeisydd am ei ddefnyddio, bydd disgwyl i'r ymgeisydd naill ai nodi "lleoliad penodol" neu ofyn am ganiatâd "crwydrol".

3.1 Lleoliad(au) penodol

Os yw ymgeisydd yn dymuno masnachu o leoliad(au) penodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gosod amod ar unrhyw ganiatâd masnachu ar y stryd cymeradwy, gan fanylu ar yr union leoliad(au) y gellir masnachu oddi yno. Bydd y caniatâd yn cynnwys cynllun manwl o'r lleoliad(au) masnachu, a chaniateir masnachu'n unol â hyn yn unig.

3.2 Crwydro

Os bydd ymgeisydd yn dymuno masnachu mewn lleoliadau gwahanol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gosod amod ar unrhyw ganiatâd masnachu ar y stryd cymeradwy, gan fanylu ar yr union leoliad(au) y gellir masnachu oddi yno. Gall yr ardaloedd hyn fod yn eithaf eang e.e. Unrhyw le ym Mharth 2, neu gallant gael eu cyfyngu i rai strydoedd neu ardaloedd; bydd hyn yn dibynnu ar y math o fasnachu a'r dull.

Fel arfer, mae masnachu crwydrol yn digwydd o gerbyd modur e.e. fan hufen-iâ, ac yn caniatáu masnachu o sawl lleoliad. Lle bydd caniatâd masnachu ar y stryd yn caniatáu crwydro, bydd masnachwyr yn gallu masnachu mewn lleoliad am gyfnod byr o amser yn unig, cyn gorfod symud i fan arall; fel arfer, ychydig funudau'n unig yw'r cyfnod amser hwn, ond caiff ei ddiffinio'n gyffredinol gan faint o fasnachu fydd yn y lleoliad. Ni chaniateir i fasnachwyr sy'n defnyddio caniatâd masnachu ar y stryd fasnachu mewn un lleoliad am fwy na 10 munud.

4.0 **Diwrnodau ac amserau masnachu**

4.1 Lleoliad penodol

Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu manylion y diwrnodau a'r amseroedd y maent yn dymuno masnachu, a gosodir y rhain fel amod ar unrhyw ganiatâd masnachu ar y stryd cymeradwy. Gall yr Awdurdod Trwyddedu wrthod y cais neu osod amod sy'n cyfyngu ar y diwrnodau a'r amserau masnachu, lle credir y bydd y diwrnodau a'r amserau y gwnaed cais amdanynt yn cael effaith andwyol ar yr ardal amgylchynol.

4.2 Crwydro

Bydd amserau masnachu ar gyfer unrhyw ganiatâd masnachu ar y stryd sy'n caniatáu crwydro'n gyfyngedig i rhwng 8am a 9pm. Bydd gofyn i ymgeiswyr sydd am fasnachu y tu allan i'r amserau hyn roi rhesymau addas dros unrhyw estyniad. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried y rhesymau a roddwyd fel rhan o'r cais cyffredinol.

4.3 Ysgolion

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod yr ymdrechion a wneir gan ysgolion i hyrwyddo bwyta'n iach i'w disgyblion ac annog faniau bwyd cyflym /gwasanaethau dosbarthu i beidio â gwerthu bwyd i staff neu ddisgyblion yn ystod y diwrnod ysgol neu'n syth cyn neu ar ôl y diwrnod ysgol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn cydnabod y llif uchel o draffig a'r materion diogelwch posib mewn ysgolion ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu felly'n caniatáu i fasnachwyr â chaniatâd masnachu ar y stryd sy'n caniatáu crwydro fasnachu o fewn 200 metr i ysgol yn ystod ei oriau gweithredu arferol, neu mewn unrhyw leoliad arall lle y maent yn bwriadu targedu plant sy'n mynd i'r ysgol neu'n ei gadael. Atodir amod sy'n adlewyrchu hyn fel amod sylfaenol i bob caniatâd o'r fath. Gall ymgeiswyr sy'n teimlo eu bod yn eithriedig rhag yr amod hwn roi rhesymau yn ystod y broses cyflwyno cais. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried y rhesymau a roddwyd fel rhan o'r cais cyffredinol.

5.0 **Parhad y caniatâd**

Rhoddir pob caniatâd am fasnachu ar y stryd am uchafswm o flwyddyn, ac ar y pwynt hwn fe'ch gwahoddir i wneud cais am adnewyddiad.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi caniatâd masnachu ar y stryd am gyfnod byrrach lle bydd ymgeisydd yn gofyn am hyn. Bydd y cyfnodau byrrach yn gyfyngedig i:

- 6 mis
- 3 mis

Dylai ymgeiswyr sylwi bod rhoi unrhyw ganiatâd am gyfnod byrrach yn golygu y bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu dalu costau ychwanegol a chaiff y costau hyn eu hadlewyrchu yn y ffi ymgeisio.

6.0 **Digwyddiadau arbennig (gwyliau, marchnadoedd, ffeiriau)**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi caniatâd masnachu ar y stryd a fydd yn ddilys am ychydig ddyddiau'n unig lle bydd y cais yn ymwneud â "digwyddiad arbennig" h.y. gŵyl, marchnad neu ffair.

Bydd angen i drefnwr y digwyddiad gyflwyno cais am ganiatâd masnachu ar y stryd a fydd yn cynnwys manylion yr holl stondinau a masnachwyr a fydd yn rhan o'r digwyddiad, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried ceisiadau am leoliadau ym Mharth 1 a Pharth 2.

7.0 **Cais am ganiatâd masnachu ar y stryd**

7.1 **Proses ymgeisio**

Gellir rhoi caniatâd masnachu ar y stryd i unigolion sydd o leiaf 17 oed yn unig.

Rhaid i bob cais am ganiatâd masnachu ar y stryd gael ei gyflwyno ar y ffurflen ragnodedig a ddarperir gan yr Awdurdod Trwyddedu, a dylid anfon yr holl ddogfennaeth ategol gyda'r cais. Bydd y ddogfennaeth ategol ofynnol yn wahanol gan ddibynnu ar a yw cais ar gyfer lleoliad penodol neu a yw'r cais yn gais am ganiatâd sy'n caniatáu crwydro.

Nodir y broses ymgeisio sy'n rhoi mwy o fanylion am y ddogfennaeth ategol sy'n ofynnol yn **Atodiad 2**.

7.2 **Addasrwydd ymgeisydd**

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd (ac eithrio ar gyfer digwyddiadau arbennig) a deiliad caniatâd gyflwyno datgeliad sylfaenol ar gyfer pob cais newydd a phob tair blynedd wedi hyn. Mae datgeliad sylfaenol yn darparu manylion unrhyw gollfarnau heb ddarfod sydd o bosib gan ymgeisydd.

Bydd canlyniad y datgeliad hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Trwyddedu wrth benderfynu a yw'r ymgeisydd yn ddiogel ac yn addas i ddal caniatâd masnachu ar y stryd.

Yr ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded fydd yn talu am holl gostau cael y gwiriad datgeliad sylfaenol.

Rhaid bod y dystysgrif datgeliad wedi cael ei rhoi llai na 3 mis cyn y diwrnod y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n penderfynu ar y cais (nid y diwrnod y cyflwynir y cais).

Gellir cael datgeliad sylfaenol gan Disclosure Scotland (www.disclosurescotland.co.uk).

7.3 **Addasrwydd cynorthwy-ydd**

Cynorthwy-ydd yw unrhyw berson sy'n defnyddio caniatâd masnachu ar y stryd i fasnachu ac mae deiliad y caniatâd yn gwybod am hyn ac wedi rhoi caniatâd iddo wneud hynny.

Mae caniatâd masnachu ar y stryd yn caniatáu masnachu gan ddeiliad y caniatâd ac unrhyw berson/bobl a enwir ar y caniatâd fel cynorthwy-ydd.

Rhaid i ymgeiswyr nodi ar y ffurflen gais unrhyw gynorthwy-ydd a allai ddefnyddio'r caniatâd masnachu ar y stryd i fasnachu. Bydd deiliaid caniatâd yn gallu gwneud newidiadau i gynorthwywyr a enwir drwy hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu'n ysgrifenedig a dychwelyd y caniatâd i'r Awdurdod Trwyddedu i'w ddiweddaru.

Gall cynorthwy-ydd fasnachu dan awdurdod caniatâd masnachu ar y stryd dim ond wedi i'r Awdurdod Trwyddedu roi caniatâd gydag enw'r cynorthwy-ydd arno.

Mae'n ofynnol cyflwyno datgeliad sylfaenol ar gyfer pob cynorthwy-ydd a enwir (ac eithrio ar gyfer digwyddiadau arbennig) ar gyfer pob cais newydd, a phob 3 blynedd wedi hynny.

Bydd canlyniadau'r datgeliad hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Trwyddedu wrth benderfynu a yw'r ymgeisydd yn ddiogel ac yn addas i ddal caniatâd masnachu ar y stryd.

Yr ymgeisydd neu'r cynorthwy-ydd fydd yn gorfod talu am holl gostau cael y gwiriad datgeliad sylfaenol.

7.4 **Cynlluniau**

Rhaid cyflwyno cynllun i raddfa gyda cheisiadau am ganiatâd masnachu ar y stryd ar gyfer lleoliad(au) penodol. Dylai'r cynllun ddangos y lleoliad(au) masnachu arfaethedig yn glir.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n atodi cynllun o'r lleoliad(au) i unrhyw ganiatâd masnachu ar y stryd cymeradwy, ac atodir amod i'r caniatâd i sicrhau yr eir ati i fasnachu'n unol â'r cynllun.

7.5 **Ymgynghoriad**

Unwaith bydd y cais wedi'i gyflwyno, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymgymryd ag ymarfer ymgynghori ag asiantaethau mewnol ac allanol amrywiol er mwyn asesu addasrwydd yr ymgeiswyr. Caiff yr asiantaethau hyn eu gwahodd i gyflwyno sylwadau ynghylch y cais, y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n eu hystyried wrth benderfynu ar y cais.

Mae'r canlynol yn rhestr o ymgyngoreion a fydd fel arfer yn rhan o'r broses ymgynghori; nid yw'r rhestr yn gyflawn a gall yr Awdurdod Trwyddedu ymgynghori ag unrhyw berson arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

Heddlu De Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
CBSCNPT - Priffyrdd
CBSCNPT – Cynllunio
CBSCNPT – Iechyd yr Amgylchedd
CBSCNPT - Ystadau
Aelod(au) Ward Lleol

7.6 **Yswiriant**

Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth £5miliwn yn ofynnol a bydd angen ei ddangos cyn i ganiatâd masnachu ar y stryd gael ei roi.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod masnachwyr mewn digwyddiadau arbennig yn aml yn fusnes anfasnachol neu'n elusen. Yn yr achosion hyn, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried derbyn yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth £1 filiwn, ond bydd hyn yn dibynnu ar y math o fasnach.

7.7 **Dogfennaeth ategol arall**

Bydd ceisiadau am ganiatâd masnachu ar y stryd sy'n caniatáu crwydro'n ofynnol i gyflwyno dogfennaeth ychwanegol lle bo'n berthnasol.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Tystysgrif brawf y Weinyddiaeth Drafnidiaeth (MOT) sy'n ddilys ar y diwrnod 1af y rhoddir y caniatâd.
- Yswiriant modur ar gyfer defnyddio'r cerbyd at ddefnydd busnes ac sy'n ddilys ar y diwrnod 1af y rhoddir y caniatâd.
- Dogfen Cofrestru Cerbyd (V5) fel y gellir defnyddio'r cerbyd at ddibenion masnachu.

7.8 **Cofrestru busnes bwyd**

Bydd angen i bob cais am ganiatâd masnachu ar y stryd sy'n cynnwys gwerthu bwyd, gael ei gofrestru fel busnes bwyd gydag Adran Iechyd yr Amgylchedd. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n hysbysu Adran Iechyd yr Amgylchedd pan fydd yn derbyn y fath gais, a fydd yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i drefnu archwiliad.

Mae mwy o wybodaeth am gofrestru fel busnes bwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gael yn www.npt.gov.uk

7.9 **Cynllunio**

Fel arfer, bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer pob caniatâd masnachu ar y stryd sy'n nodi lleoliad(au) penodol. Mae'r trefnau cynllunio a thrwyddedu'n swyddogaethau rheolaethol ar wahân, a bydd angen i ymgeiswyr fodloni'r ddwy gyfres o ofynion cyn i chi allu masnachu'n gyfreithlon. Anogir ymgeiswyr felly i gysylltu ag Adran Cynllunio'r cyngor cyn gynted â phosib.

Dylech nodi, hyd yn oed os bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi caniatâd masnachu ar y stryd, nad yw hyn yn golygu y byddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi'n awtomatig (yn enwedig os yw eich lleoliad o ddewis y tu allan i ffin anheddiad diffiniedig). Gallai methu cael y caniatâd cynllunio gofynnol arwain at yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymryd camau gorfodi ffurfiol.

Nid oes angen caniatâd cynllunio fel arfer ar unrhyw ganiatâd masnachu ar y stryd sy'n caniatáu crwydro.

8.0 Amodau

8.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n atodi amodau sylfaenol wrth unrhyw ganiatâd masnachu ar y stryd cymeradwy. Mae cyfresi ar wahân o amodau, gan ddibynnu ar a yw'r caniatâd masnachu ar y stryd ar gyfer "lleoliad penodol" neu'n un sy'n caniatáu "crwydro". Nodir yr amodau safonol yn Atodiad 3.

8.2 Yn ogystal â'r amodau safonol, gall yr Awdurdod Trwyddedu atodi amodau penodol wrth unrhyw ganiatâd cymeradwy lle bernir ei bod yn briodol gwneud hynny.

9.0 **Llusernau Awyr**

Mae'r cyngor wedi mabwysiadu polisi mewn perthynas â llusernau awyr sy'n gwahardd unrhyw un sy'n masnachu dan awdurdod caniatâd masnachu ar y stryd rhag gwerthu llusernau awyr. Felly, caiff amod sy'n gwahardd gwerthiant llusernau awyr ei ychwanegu at bob caniatâd masnachu ar y stryd

10.0 **Ffioedd**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n pennu ffioedd ar gyfer pob caniatâd ar lefel a fydd yn adennill y costau llawn i'r cyngor am roi, gweinyddu a chydymffurfio â chaniatâd, a, lle caniateir hynny, ei orfodi.

10.1 Adolygu ffioedd

Yn gyffredinol, caiff ffioedd eu hadolygu'n flynyddol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth i'w rhoi ar waith ar 1 Ebrill yn dilyn yr adolygiad. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cadw'r hawl i adolygu'r ffioedd ar unrhyw adeg
Mae rhestr o ffioedd cyfredol ar gael gan yr Is-adran Trwyddedu neu yn www.npt.gov.uk/licensing

Atodiad 1

Cynlluniau Parth 1

Canol Tref Castell-nedd



Canol Tref Port Talbot



Canol Tref Pontardawe



Glan Môr Aberafan

Atodiad 2

Caniatâd Masnachu ar y Stryd
Gweithdrefn Ymgeisio am Grant

Pecyn Cais Masnachu ar y Stryd
Gellir cael pecyn cais gan yr Is-adran Trwyddedu, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ Rhif ffôn: 01639 763050
e-bost: licensing@npt.gov.uk neu gallwch wneud cais ar-lein yn www.npt.gov.uk/licensing

Darperir y nodiadau hyn i'ch cynorthwyo i gwblhau eich cais. Os oes angen unrhyw gymorth neu wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Is-adran Trwyddedu ar y rhif uchod.

Mae rhestr o ffioedd cyfredol ar gael o'r Is-adran Trwyddedu neu fel arall ar ein gwefan www.npt.gov.uk/licensing

CAM 1 - Cwblhau eich cais

Y Ffurflen Gais

- Mae'n rhaid i chi gwblhau'r ffurflen gais gan sicrhau eich bod yn ateb yr holl gwestiynau.

- Sicrhewch fod y datganiad ar y cais a'r datganiad cynllunio wedi'u llofnodi.

Dogfennau Ategol

- Dogfennau'r cerbyd - lle'r ydych yn bwriadu masnachu o gerbyd modur, bydd gofyn i chi ddarparu'r dogfennau canlynol: -
    - Tystysgrif y Weinyddiaeth Drafnidiaeth (MOT) ddilys
    - Llyfr cofrestru (V5)
    - Polisi Yswiriant Modur dilys

- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus
    - Mae'n ofynnol i bob masnachwr gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n werth £5 miliwn.

- Cynllun - lle mae eich cais yn ymwneud â lleoliad penodol, bydd gofyn i chi ddarparu cynllun, sy'n dangos y lleoliad rydych yn bwriadu masnachu oddi yno'n glir.

- Caniatâd perchennog y tir - Lle mae eich cais yn ymwneud â thir preifat, mae'n rhaid i chi anfon llythyr caniatâd, wedi'i lofnodi gan berchennog y tir, gyda'ch cais.

CAM 2 - Ymgynghoriad

Lleoliad Penodol

Wedi i chi gyflwyno'ch cais a'r dogfennau ategol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cynnal ymgynghoriad ag asiantaethau amrywiol i benderfynu ar addasrwydd y lleoliad rydych wedi'i ddewis i fasnachu ohono.

Bydd y cyfnod ymgynghori’n para at 4 wythnos a bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cysylltu â chi i drafod unrhyw wrthwynebiadau wedi i'r cyfnod hwn ddod i ben.

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, dylech gysylltu â'r adran gynllunio i gadarnhau a oes angen caniatâd cynllunio. Mae'r cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu'n swyddogaethau rheolaethol ar wahân a bydd angen i ymgeiswyr fodloni'r ddwy gyfres o ofynion cyn gallu masnachu'n gyfreithlon.

Crwydro

Wedi i chi gyflwyno'ch cais a'r dogfennau ategol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n anfon copi o'ch cais Adran Iechyd yr Amgylchedd y cyngor (busnes bwyd yn unig). Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cysylltu â chi unwaith y bydd wedi cael ymateb gan Adran Iechyd yr Amgylchedd.

CAM 3 - addasrwydd ymgeisydd a chynorthwy-ydd

Mae gofyn i ymgeiswyr ac unrhyw gynorthwywyr a nodwyd yn y ffurflen gais gyflwyno datgeliad sylfaenol. Gellir cael datgeliad

sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:
www.gov.uk/request-copy-criminal-record

Ar gyfer ceisiadau lle caniateir crwydro, efallai bydd ymgeiswyr am wneud cais am ddatgeliad sylfaenol yn gynt yn y broses i atal oedi. Dylech drafod hyn â'r Awdurdod Trwyddedu wrth gyflwyno'ch cais. Anfonir y dystysgrif datgeliad sylfaenol i'ch cyfeiriad cartref/cyfeiriad cartref eich cynorthwywr. Rhaid i chi gyflwyno copi gwreiddiol o'r dystysgrif i'r Awdurdod Trwyddedu.

CAM 5 - Penderfynu ar gais

- Os oes gwrthwynebiadau i'ch cais neu os cofnodir collfarnau ar eich datgeliad sylfaenol, yna efallai bydd angen i'r Pwyllgor Cofrestru a Thrwyddedu ystyried eich cais. Rhoddir gwybod i chi am hyn a'ch hysbysu'n ysgrifenedig o ddyddiad ac amser gwrandawiad. Mae'n debygol y cewch eich gwahodd i fynd i'r gwrandawiad.

- Mae penderfyniad y Pwyllgor Cofrestru a Thrwyddedu'n derfynol ac nid oes hawl i apelio.

CAM 6 - Rhoi trwydded

- Os caiff eich cais ei gymeradwyo, anfonir cadarnhad ysgrifenedig atoch.

- Bydd angen i chi dalu'r ffi berthnasol er mwyn cael caniatâd

Atodiad 3

Caniatâd Masnachu ar y Stryd
Amodau

Lleoliad Penodol

1 At ddibenion yr amodau hyn, mae'r ystyr a briodolir i "stryd" a "masnachu ar y stryd" yn deillio o Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

2 Pobl a enwir ar y caniatâd masnachu ar y stryd yn unig sydd â'r hawl i fasnachu dan awdurdod y caniatâd.

3 Gellir masnachu o'r lleoliad a nodir ar y cynllun sydd wedi'i atodi i'r caniatâd yn unig.

4 Ni ellir trosglwyddo, aseinio neu is-osod y caniatâd mewn unrhyw ffurf. Bydd y caniatâd yn darfod ar farwolaeth, methdaliad neu ansolfedd deiliad y caniatâd.

5 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn defnyddio unrhyw stondin cerbyd, stondin, cynhwysydd neu unrhyw eitem arall ac eithrio un sydd wedi'i chymeradwyo'n benodol gan y caniatâd.

6 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn arfer unrhyw fasnach ac eithrio'r hyn a nodir yn y caniatâd, a rhaid iddo gymryd rhan weithredol wrth gynnal y busnes a pheidio â dirprwyo'r rheoli i unrhyw berson.

7 Caiff y caniatâd masnachu ar y stryd ei arddangos mewn lle amlwg yn y lleoliad masnachu yn ystod oriau masnachu, a bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn dangos y caniatâd hwn ar gais swyddog Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot neu swyddog yr heddlu.

8 Ni fydd unrhyw ganiatâd Parth 1 mewn perthynas â chanol tref Castell-nedd yn weithredol yn ystod cyfnod ffair fasnachu mis Medi Castell-nedd.

9 Bydd yr holl ddeiliaid caniatâd yn cynnal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o bum miliwn o bunnoedd.

10 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn mynd at unrhyw aelod o'r cyhoedd wrth iddo fasnachu.

11 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn ymadael â'r man masnachu os bydd argyfwng ar gais swyddog yr heddlu, swyddog tân, swyddog ambiwlans neu swyddog y cyngor.

12 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn gadael unrhyw beth ar y stryd sy'n beryglus i bobl neu draffig neu eiddo.

13 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn sicrhau bod pob cerbyd, stondin, cynhwysydd neu eitem arall a gaiff ei defnyddio i fasnachu yn cael eu cadw mewn cyflwr glân a thaclus.

14 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn darparu bin sbwriel addas yn ystod y cyfnod masnachu.

15 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn sicrhau y cedwir y man masnachu'n glir o sbwriel neu ddeunydd gwastraff arall yn ystod yr oriau masnachu, a bod pob eitem o sbwriel a gwastraff yn cael ei symud o'r safle pan fydd y masnachu'n gorffen.

16 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn defnyddio microffonau a/neu uchelseinyddion oni bai fod yr Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig.

17 Bydd diffoddiaduron tân digonol a phriodol ar bob stondin ac ym mhob cerbyd a fydd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a'u hardystio'n unol â hyn.

18 Rhaid i ddefnyddiau pebyll, gan gynnwys y leinin, fod naill ai'n ddefnyddiau gwrthfflam neu bydd angen iddynt fod wedi'u trin â chyfansoddyn gwrthfflam addas.

19 Bydd offer coginio a gwresogi mewn mannau sy'n glir o waliau a nenfydau pebyll. Lle caiff nwy potel ei ddefnyddio,

rhaid i'r silindrau fod y tu allan i'r babell, a rhaid i unrhyw berson sy'n eu trafod a'u newid fod yn gwbl gyfarwydd â chyfarwyddiadau'r cyflenwr.

20 Gwaherddir y defnydd o offer sy'n llosgi olew ar gyfer goleuo, gwresogi neu goginio. Ni ddylid defnyddio offer â fflam noeth i oleuo neu wresogi (gan gynnwys canhwyllau) ac ni ddylent fod ar gael yn gyffredinol mewn ardaloedd y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt.

21 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn achosi unrhyw rwystr yn y stryd na niwsans neu berygl i bobl sy'n ei defnyddio.

22 Lle bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn masnachu o gerbyd sefydlog, bydd y cerbyd hwnnw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu a Defnyddio Cerbyd Modur ym mhob ffordd. Bydd cerbydau modur yn gallu cael eu gyrru ac ni chânt eu tynnu i unrhyw leoliadau masnachu.

23 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn cadw unrhyw ddŵr a ddefnyddiwyd neu wastraff a gynhyrchwyd gyda'i gerbyd neu ei stondin neu ddull arall a ddefnyddir i fasnachu, tan ddiwedd pob cyfnod masnachu, ac yna'u symud a chael gwared ohonynt yn ddiogel ac yn gyfreithiol mewn man arall. Yn arbennig, ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn taflu unrhyw wastraff o'r fath mewn unrhyw stryd, draen neu sianel.

24 Ni chaniateir i lusernau stryd, llusernau kongming na llusernau Tsieineaidd gael eu gwerthu dan y caniatâd masnachu ar y stryd hwn.

25 Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddirymu'r caniatâd masnachu ar y stryd ar unrhyw adeg, ac ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu, mewn unrhyw amgylchiadau, yn atebol i dalu unrhyw iawndal i'r deiliad mewn perthynas â dirymiad o'r fath.

26 Gall yr Awdurdod Trwyddedu amrywio, ddiwygio neu ychwanegu at amodau'r caniatâd hwn ar unrhyw adeg.

<u>Crwydro</u>

1 At ddibenion yr amodau hyn, mae'r ystyr a briodolir i "stryd" a "masnachu ar y stryd" yn deillio o Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

2 Pobl a enwir ar y caniatâd masnachu ar y stryd yn unig sydd â'r hawl i fasnachu dan awdurdod y caniatâd.

3 Yn ystod oriau gweithredu arferol ysgol, ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn masnachu o fewn 200 metr i ysgol neu mewn unrhyw leoliad arall lle y bwriedir targedu plant sy'n mynd i'r ysgol neu'n ei gadael.

4 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn parcio mewn lleoliad sy'n achosi rhwystr i'r briffordd, troedffyrdd i gerddwyr neu rannwr ffordd.

5 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn parcio mewn lleoliad sy'n achosi rhwystr neu'n atal cerbydau argyfwng i gael mynediad rhydd i'r lleoliad ac oddi yno.

6 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn parcio mewn lleoliad sy'n achosi rhwystr neu'n amharu ar y defnydd o hydrantau tân.

7 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn parcio mewn lleoliad sy'n achosi rhwystr i fynedfa neu allanfa unrhyw adeilad.

8 Ni ellir trosglwyddo, aseinio neu is-osod y caniatâd mewn unrhyw ffurf. Bydd y caniatâd yn darfod ar farwolaeth, methdaliad neu ansolfedd deiliad y caniatâd.

9 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn defnyddio unrhyw stondin cerbyd, stondin, cynhwysydd neu unrhyw eitem arall ac eithrio un sydd wedi'i chymeradwyo'n benodol gan y caniatâd.

10 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn arfer unrhyw fasnach ac eithrio'r hyn a nodir yn y caniatâd, a rhaid iddo gymryd rhan weithredol wrth gynnal y busnes a pheidio â dirprwyo'r rheoli i unrhyw berson.

11 Caiff y caniatâd masnachu ar y stryd ei arddangos mewn lle amlwg ar y cerbyd masnachu yn ystod oriau masnachu, a bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn dangos y caniatâd hwn ar gais swyddog Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot neu swyddog yr heddlu.

12 Bydd yr holl ddeiliaid caniatâd yn cynnal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o bum miliwn o bunnoedd.

13 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn mynd at unrhyw aelod o'r cyhoedd wrth iddo fasnachu.

14 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn ymadael â'r man masnachu os bydd argyfwng ar gais swyddog yr heddlu, swyddog tân, swyddog ambiwlans neu swyddog y cyngor.

15 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn gadael unrhyw beth ar y stryd sy'n beryglus i bobl neu draffig neu eiddo.

16 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn sicrhau bod pob cerbyd, stondin, cynhwysydd neu eitem arall a gaiff ei defnyddio i fasnachu yn cael eu cadw mewn cyflwr glân a thaclus.

17 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn darparu bin sbwriel addas yn ystod y cyfnod masnachu.

18 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn sicrhau y cedwir y man masnachu'n glir o sbwriel neu ddeunydd gwastraff arall yn ystod yr oriau masnachu, a bod pob eitem o sbwriel a gwastraff yn cael ei symud o'r safle pan fydd y masnachu'n gorffen.

19 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn defnyddio microffonau a/neu uchelseinyddion oni bai fod yr Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig.

20 Bydd diffoddiaduron tân digonol a phriodol ym mhob cerbyd a fydd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a'u hardystio'n unol â hyn.

21 Gwaherddir y defnydd o offer sy'n llosgi olew ar gyfer goleuo, gwresogi neu goginio. Ni ddylid defnyddio offer â fflam noeth i oleuo neu wresogi (gan gynnwys canhwyllau) ac ni ddylent fod ar gael yn gyffredinol mewn ardaloedd y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt.

22 Ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn achosi unrhyw rwystr yn y stryd na niwsans neu berygl i bobl sy'n ei defnyddio.

23 Lle bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn masnachu o gerbyd sefydlog, bydd y cerbyd hwnnw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu a Defnyddio Cerbyd Modur ym mhob ffordd.

24 Bydd deiliad y caniatâd neu ei gynorthwy-ydd yn cadw unrhyw ddŵr a ddefnyddiwyd neu wastraff a gynhyrchwyd gyda'i gerbyd neu ei stondin neu ddull arall a ddefnyddir i fasnachu, tan ddiwedd pob cyfnod masnachu, ac yna'u symud a chael gwared ohonynt yn ddiogel ac yn gyfreithiol mewn man arall. Yn arbennig, ni fydd deiliad y caniatâd na'i gynorthwy-ydd yn taflu unrhyw wastraff o'r fath mewn unrhyw stryd, draen neu sianel.

25 Ni chaniateir i lusernau stryd, llusernau kongming na llusernau Tsieineaidd gael eu gwerthu dan y caniatâd masnachu ar y stryd hwn.

26 Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddirymu'r caniatâd masnachu ar y stryd ar unrhyw adeg, ac ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu, mewn unrhyw amgylchiadau, yn atebol i dalu unrhyw iawndal i'r deiliad mewn perthynas â dirymiad o'r fath.

27 Gall yr Awdurdod Trwyddedu amrywio, ddiwygio neu ychwanegu at amodau'r caniatâd hwn ar unrhyw adeg.